

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

### **PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

**Cofnodion** cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Y Pafiliynau, Cwm Clydach ddydd Iau 16 Tachwedd 2017 am 5pm.

#### **YN BRESENNOL**

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S. Rees – yn cadeirio

#### **Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol**

G. Caple	L. Hooper	S. Powell
A. Davies-Jones	G. Hughes	J. Williams
D. Grehan	P. Jarman	

#### **Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr S. Gale – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio  
Mr S. Humphreys – Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cynllunio a'r Amgylchedd  
Mr D. J. Bailey – Rheolwr Gwasanaethau Datblygu  
Mr S. Zeinali – Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd

#### **93. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol J. Bonetto a D. H. Williams.

#### **94. DATGAN BUDDIANT**

Doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

#### **95. DEDDF HAWLIAU DYNOL A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** – nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**96. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** – nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**97. COFNODION**

**PENDERFYNWYD** – cymeradwyo cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn rhai cywir yn amodol ar eu diwygio i gynnwys cyfeiriad at atal rheolau sefydlog i alluogi'r cyfarfod i barhau am fwy na thair awr.

**98. CEISIADAU SYDD WEDI'U HARGYMELL AR GYFER EU CYMERADWYO**

Yn ei adroddiad, amlinellodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio – y manylion am y ceisiadau y mae'n argymell eu cymeradwyo, a **PHENDERFYNWYD** –

- (1) Cymeradwyo Cais Rhif: 15/1635 – Codi dau dyrbin gwynt sydd ddim yn uwch na 125 metr, seilwaith cysylltiedig, caban trawsnewidydd a thrac mynediad, gan gynnwys mynediad trwy'r briffordd gyhoeddus ac ar draws Fferm Cribin Ddu a Fferm Llwyncelyn (daeth lluniau ychwanegol i law ar 7 Awst), Fferm Llwyncelyn, Hafod Lane, Y Porth, yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

**(NODER:** Rhoddodd Rheolwr Gwasanaethau Datblygu wybod i'r Aelodau am lythyrau hwyr oedd yn mynegi gwrthwynebiad i'r cais.)

- (2) Cymeradwyo Cais Rhif: 16/1226 – Cadw swyddfeydd, maes parcio cysylltiedig, mynediad newydd i gerbydau a ffensys o amgylch y ffiniau, adeiladu porthdy newydd, Uned 16 Earthmovers House, Parc Busnes Llantrisant, Llantrisant, Pont-y-clun, yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

**(Noder:** Rhoddodd y Cynghorydd P. Jarman wybod i'r Pwyllgor y byddai'n peidio â phleidleisio ar y cais yma a Chais Rhif 16/1251 oherwydd bod yr ymgeisydd yn noddi Nos Galan.)

- (3) Cymeradwyo Cais Rhif: 16/1251 – Adeiladu gweithdy newydd ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw cerbydau, gorsaf danwydd a manau llechi concrit cysylltiedig, Uned 16 Earthmovers House, Parc Busnes Llantrisant, Llantrisant, Pont-y-clun, yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

- (4) Cymeradwyo Cais Rhif: 17/0462 – 9 cartref newydd gyda modurdy a gwaith cysylltiedig ynghyd ag ail gynllun ar gyfer Llain 37 ar y datblygiad a gymeradwywyd yn flaenorol Cyf: 14/1283/10 (daeth gwybodaeth ecolegol i law 04/09/17, a daeth cynllun diwygiedig a chynlluniau rhifau tai i law 09/10/17), tir i'r gogledd o Nant Arian, Pentre'r Eglwys, yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio – ar yr amod bod yr ymgeisydd yn ymrwmo i Gytundeb o dan Adran 106 i gadw'r aneddiadau perthnasol yn eiddo Perchentyaeth Cost Isel am byth.

**(Noder:** Gofynnodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol L. Hooper am gofnodi ei wrthwynebiad i'r cais.)

- (5) Cymeradwyo Cais Rhif: 17/0614 – Gosod cyfleuster golchdy hunanwasanaeth modiwlaidd ar safle'r hen orsaf betrol Texaco (ôl-weithredol), Gorsaf Betrol Clearway Texaco, Llantrisant Road, Llanilltud Faerdref, Pontypridd, yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio – ynghyd ag amodau.

**(Noder:** Rhoddodd Rheolwr Gwasanaethau Datblygu wybod i'r Aelodau am ddau lythyr hwyr – un gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J. James, nad yw'n aelod o'r pwyllgor – gyda'r ddau yn mynegi gwrthwynebiad i'r cais.)

- (6) Cymeradwyo Cais Rhif: 17/0981 – Amrywio Amod 3 o'r cais a gymeradwywyd yn flaenorol 15/0777/10 i ymestyn y cyfnod amser 5 mlynedd i 30 mlynedd a Dileu Amod 19 ar gyfer cynllun i ddarparu a chynnwys arwydd/bwrdd, Fferm Berthlwyd, Maendy Road, Penycoedcae, Pontypridd, yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio – ynghyd â gofyn i'r ymgeisydd roi'r wybodaeth am y datblygiad ar ei wefan yn hytrach nag ar hysbysfwrdd.

- (7) Cymeradwyo Cais Rhif: 17/1043 – Newid defnydd o ddsbarth C3 i ddsbarth C4 (Tai Amfeddiannaeth), 5 Kingsland Terrace, Trefforest, Pontypridd, yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

- (8) Cymeradwyo Cais Rhif: 17/1071 – Amrywio Amod 1 o Gais Rhif 16/1019/10 – i ymestyn y cyfnod dros dro (uchafswm o flwyddyn, gan gychwyn 23 Hydref 2016) am 24 mis arall, gan weithredu o 23 Hydref 2017, Meddygfa Cardiff Road, 8 Cardiff Road, Aberpennar, yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio – ond, ar yr amod bod amrywio'r estyniad yn golygu cyfnod o 12 mis ac nid 24 mis, a bod Amod 1 yn cael ei ddiwygio'n briodol o ystyried y cyfnod mae'r adeiladau dros dro wedi bodoli a sicrhau cynnydd o ran dod o hyd i gyfleuster addas ar gyfer darparu cyfleusterau gofal iechyd sylfaenol yn Aberpennar, a bod unrhyw gais am estyniad arall yn cael ei roi ger bron y Pwyllgor i'r Aelodau gael ei ystyried.

- (9) Cymeradwyo Cais Rhif: 17/1092 – Newid defnydd o ddsbarth C3 i ddsbarth C4 (newid tŷ â thair ystafell wely yn dŷ amfeddiannaeth â phedair ystafell wely), 87 Wood Road, Trefforest, Pontypridd, yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

**99. CAIS WEDI'I OHIRIO**

Cymeradwyo Cais Rhif: 17/0801 – Datblygiad preswyl gyda gwaith cysylltiedig (Cynllun safle a pheiranyddol diwygiedig a ddaeth i law 06/09/17), tir oddi ar Cardiff Road, Cwm Cynon (Gogledd), Aberpennar, yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio – oherwydd bod yr Awdurdod Glo wedi dileu ei wrthwynebiad ar yr amod bod yr ymgeisydd yn ymrwymo i Gytundeb o dan Adran 106 ar gyfer:

- Darparu 10% ar ffurf tai fforddiadwy
- Cytundeb ar gyfer cynllun hyfforddi sgiliau cyflogadwyedd

**100. ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio – mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law, Ceisiadau wedi eu Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer y cyfnod 23/10/2017 tan 03/11/2017.

**S. REES  
CADEIRYDD**

**Daeth y cyfarfod i ben am 6:15pm.**